Gyrfa Cymru
Careers Wales

Ar Gyfer Pawb

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (ED&I)

Fersiwn Darllen Hawdd

Ymrwymiad Gyrfa Cymru i Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn golygu:

- Gwneud yn siŵr ein bod ni'n deg â phawb.
- Ein bod ni'n cynnwys pawb ar draws Cymru
- Bod pawb yn rhan o beth rydyn ni'n gwneud

Mae Gyrfa Cymru yn meddwl bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad yn bwysig.

Mae llawer o gymunedau a phobl wahanol yng Nghymru.

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio'n deg gyda phawb yng Nghymru.

Mae'r gyfraith yn dweud wrthyn ni sut i gynnwys pobl a'u trin nhw yn deg.
Mae Gyrfa Cymru yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n dilyn y gyfraith.

Bydd Gyrfa Cymru yn:

- Gwneud yn siŵr bod Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn rhan o'n gwaith bob dydd ni.

- Gwneud yn siŵr bod ein cwsmeriaid a'n staff ni'n cael eu cynnwys a'u gwerthfawrogi.

- Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau a gweithio i ni ar gael i bawb.

- Trin ein cwsmeriaid a'n gweithwyr fel unigolion, yn deg a gyda pharch.

- Rhoi cyfle i bawb ddysgu a gwneud yn dda

- Gwneud yn siŵr bod ein staff yn cwrdd ag anghenion ein cwsmeriaid.

- Gwrando ar beth mae ein cwsmeriaid a'n staff yn ei ddweud am ein gwaith ni.

- Gwneud yn siŵr nad oes neb yn ymddwyn gyda diffyg parch.

- Gwirio ein harferion a'n polisi ni'n rheolaidd.

- Gweithio gyda phobl eraill.

- Siarad am ein gwaith a'r cynnydd rydyn ni'n ei wneud.

- Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ni a'n Hasesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ni'n helpu ni i gyflawni ein nodau.